

# Cyfarwyddwyr Anweithredol

Partneriaeth Chwaraeon  
Canolbarth Cymru

Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd

PARTNERIAETH  
CHWARAEON  
CANOLBARTH CYMRU

MID WALES  
SPORT  
PARTNERSHIP




# Cynnwys

- Llythyr gan y Cadeirydd **Tudalen 3**
- Gweledigaeth ac Amcanion Strategol **Tudalen 4**
- Swyddogaethau'r Bwrdd **Tudalen 5**
  - Is Gadeirydd **Tudalen 6**
  - Cyfarwyddwr Cyllid **Tudalen 7**
  - Cyfarwyddwr Anweithredol **Tudalen 8**
- Proses Recriwtio **Tudalen 9**

PARTNERIAETH  
CHWARAEON  
CANOLBARTH CYMRU

MID WALES  
SPORT  
PARTNERSHIP



# Llythyr gan y Cadeirydd

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch i chi am ddangos diddordeb yn y sefydliad newydd cyffrous hwn.

Mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru, mae Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru (PChCC) wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar i helpu mwy o bobl ar draws y rhanbarth i fwynhau mynediad i weithgarwch corfforol fel ein bod yn gallu cyflawni ein gweledigaeth o *"Greu Cymunedau Iachach a Thrawsnewid Bywydau dwy Ffyrdd o Fyw Actif"*.

Mae symud at Bartneriaethau Rhanbarthol yn rhoi cyfle unigryw i ni fynd i'r afael yn lleol â'r heriau sy'n ein hwynebu ni ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru sy'n cwmpasu Powys a Cheredigion.

Mae PChCC yn gweithredu fel cwmni cyfyngedig drwy warant (gyda'r potensial i fabwysiadu statws elusennol ar yr amser cywir), o fewn fframwaith llywodraethu cadarn a thryloyw. Wrth galon y Bartneriaeth bydd Bwrdd cytbwys, cynhwysol, amrywiol a medrus a fydd yn canolbwyntio ar ein cyfeiriad strategol.

PARTNERIAETH  
CHWARAEON  
CANOLBARTH CYMRU

MID WALES  
SPORT  
PARTNERSHIP

Mae ein bwrdd yn cynnwys gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser, eu gwybodaeth a'u profiad i lywio Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru tuag at gyflawni ein strategaeth yn llwyddiannus.

Mae'n hanfodol bod gennym bersbectif amrywiol i lywodraethu'n effeithiol, ac i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn sefydliad blaengar, cynhwysol sydd wedi ymrwymo i gyflawni ein gweledigaeth.

Rydym yn recriwtio **TRI** o bobl arloesol i ymuno â'n Bwrdd o Gyfarwyddwyr Anweithredol.


Rydym yn chwilio am **Is Gadeirydd, Cyfarwyddwr Cyllid a Cyfarwyddwr Anweithredol** i helpu i sbarduno uchelgais Canolbarth Cymru.

Rydym yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd:

- yn gyfforddus yn gofyn cwestiynau a fydd yn ein helpu ni i dyfu,
- â phrofiad o fewn y meysydd uchod,
- yn cyfrannu dirnadaeth a dealltwriaeth amrywiol at drafodaethau gydag athroniaeth gref o degwch, cynhwysiant ac amrywiaeth.

Os oes gennych chi rywfaint o amser i'w roi ac os ydych chi'n angerddol am weithgarwch corfforol, cynhwysiant a'n rhanbarth hardd ni, ac yn barod i hyrwyddo, herio a chefnogi ein gwaith, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Sherrie Woolf- Cadeirydd, Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru



# Gweledigaeth ac Amcanion Strategol

## Ein Gweledigaeth yw:

*Creu Cymunedau Iachach a  
Thrawsnewid Bywydau drwy  
Ffyrdd o Fyw Actif*

## Mae gennym ni 6 Amcan Strategol:

### 1) Pobl

- Dathlu amrywiaeth drwy ganolbwyntio ar yr unigolyn, gyda ffocws penodol ar bobl sy'n llai actif ac sydd angen cymorth ychwanegol i wella eu hiechyd a'u lles.
- Creu cyfleoedd i bobl fod yn gorfforol actif / cymryd rhan mewn chwaraeon ym mhob cam yn eu bywydau.
- Cefnogi, datblygu a dathlu ein rhwydwaith o wirfoddolwyr a'n gweithlu i sicrhau dyfodol gweithgarwch corfforol a chwaraeon cymunedol.

### 2) Eiriolaeth ac Arweinyddiaeth

- Arwain gweithgarwch corfforol a chwaraeon yn strategol yn y rhanbarth gan sicrhau'r canlyniadau gorau i'n trigolion a'n cymunedau ni drwy ddylanwadu ar randdeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawni.
- Ceisio cynyddu adnoddau i wella'n barhaus ac arloesi gyda chyfleoedd i bobl fod yn gorfforol actif am oes.

### 3) Cymuned

- Grymuso ein cymunedau i ddatblygu eu dulliau eu hunain o gynnal gweithgarwch corfforol a chwaraeon lleol.
- Cydnabod pwysigrwydd a gwerth ein strwythur o glybiau drwy barhau i ddarparu'r gefnogaeth sy'n eu galluogi i ffynnu a chynnal eu cyfraniad at eu cymuned a'r economi leol.

### 4) Cyfleusterau

- Hyrwyddo datblygiad cyfleusterau modern, ysbrydoledig o safon byd, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau posibl o'n hamgylchedd naturiol, gan sicrhau hefyd ein bod yn ei warchod.

### 5) Effaith

- Mesur a chyhoeddi ein perfformiad yn effeithiol i ysgogi gwelliant yn barhaus ac i gefnogi penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

### 6) Dirnadaeth ac Ymchwil

- Cael ein harwain gan ein dirnadaeth, ein hymchwil a'n tystiolaeth i sicrhau ein bod yn buddsoddi ein hamser ac yn rhannu adnoddau yn y cymunedau a'r grwpiau poblogaeth hynny lle mae'r angen mwyaf.

# Swyddogaethau'r Bwrdd

Cyfarwyddwyr Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru sy'n gyfrifol am lywodraethu'r sefydliad yn gyffredinol. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd (i'w benodi), ac wyth aelod arall. Ni fydd nifer y Cyfarwyddwyr yn llai na phedwar byth ac ni fydd yn fwy na deg byth chwaith.

Mae Cyfarwyddwyr PChCC yn cael eu hethol am dymor cychwynnol o dair blynedd ac wedyn gallant wasanaethu am ail dymor o dair blynedd yn ychwanegol.

Mae lle ar gyfer arsylwyr ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr, ac mae gan yr unigolion hyn hawliau ond dim pleidlais, ond gallant roi arweiniad a chefnogaeth benodol i'r Bwrdd mewn meysydd lle mae arweiniad arbenigol yn hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i weithredu amgylchedd proffesiynol cadarnhaol a hyblyg a byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn cael gwared ar unrhyw heriau y mae aelod o'r bwrdd yn eu rhagweld neu'n eu profi er mwyn ymgysylltu'n llawn â holl fusnes PChCC.

Rydym yn chwilio am **Is Gadeirydd, Cyfarwyddwr Cyllid a Cyfarwyddwr Anweithredol** i helpu i sbarduno uchelgeisiau'r bartneriaeth.

PARTNERIAETH  
CHWARAEON  
CANOLBARTH CYMRU

MID WALES  
SPORT  
PARTNERSHIP

**Mae'r swyddogaethau hyn yn wirfoddol ac fel Cyfarwyddwr Anweithredol bydd angen i chi fod:**

**Ar gael ar gyfer Cyfarfodydd Bwrdd, sydd:**

- yn 2 awr fel rheol (gydag amser ychwanegol yn ofynnol ar gyfer paratoi)
- digwydd unwaith bob deufis i ddechrau ond gan weithio tuag at bob 3 mis wrth i'r sefydliad ddod yn fwy sefydledig.
- yn hygyrch ar Teams neu Zoom (ac wyneb yn wyneb pan fo hynny'n bosibl).

**Ar gael i fynychu digwyddiadau PChCC, neu i gynrychioli PChCC mewn digwyddiadau (fel mae eich argaeledd yn caniatáu):**

- Bydd PChCC yn talu unrhyw gostau teithio neu gynhaliaeth a all godi i fynychu
- Bydd cymorth briffio'n cael ei roi os oes angen
- Dylai aelodau'r Bwrdd fod ar gael i fynychu dyddiau cwrdd i ffwrdd y bwrdd yn unol â'r amserlen

**Wedi ymrwymo i:**

- Gweithredu gyda didwylledd a chynnal buddiannau PChCC bob amser
- Creu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol gyda rhanddeiliaid.
- Cynnal a gweithio tuag at weledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd, ymddygiadau ac amcanion PChCC a sicrhau bod y sefydliad yn parhau i weithio tuag at y rhain.



# Is Gadeirydd

## Cyfrifoldebau'r Is Gadeirydd:



- Cyflawni dyletswyddau Cadeirydd y Bwrdd pan mae'n absennol neu os daw'r swyddogaeth honno'n wag.
- Cynorthwyo Cadeirydd y Bwrdd gyda'i ddyletswyddau.
- Arwain gwerthusiad y Cadeirydd.
- Gwasanaethu ar bwyllgorau'r bwrdd a / neu Gadeirio yn ôl y gofyn.
- Gweithio'n agos gyda chadeirydd y bwrdd i drosglwyddo gwybodaeth a hanes.
- Cwblhau dyletswyddau arbennig yn ôl y gofyn.
- Hyrwyddo gwaith PChCC a gweithredu fel llefarydd neu gynrychiolydd PChCC lle bo angen.

PARTNERIAETH  
CHWARAEON  
CANOLBARTH CYMRU

MID WALES  
SPORT  
PARTNERSHIP



# Cyfarwyddwr Cyllid

## Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Cyllid

---



- Darparu cyfeiriad ariannol strategol i gefnogi'r bwrdd i gyflawni ei nodau strategol.
- Cynorthwyo'r bwrdd i nodi, deall a rheoli ei risgiau ariannol.
- Sicrhau bod PChCC yn ariannol gadarn a chynaliadwy.
- Sicrhau bod y bwrdd yn cydymffurfio'n llawn ag unrhyw rwymedigaethau statudol a rheoleiddiol.
- Sicrhau bod PChCC yn cyrraedd safonau uchel o lywodraethu ariannol ac yn gwneud penderfyniadau tryloyw.
- Bod yn llofnodwr awdurdodedig ar gyfer y bwrdd.
- Yr ymgeiswyr i fod ag o leiaf 5 mlynedd o brofiad o reolaeth ariannol. Mae'n ddymunol i'r ymgeiswyr fod â phrofiad cyfrifeg.

# Cyfarwyddwr Anweithredol


## Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Anweithredol



- Darparu arweinyddiaeth strategol effeithlon ac effeithiol i Bartneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru (PChCC).
- Denu rhwydweithiau i gefnogi codi arian a datblygiad sefydliadol a busnes.
- Cytuno ar restr o faterion a gadwyd yn ôl yn benodol ar gyfer penderfyniadau mawr gan Fwrdd y Bartneriaeth.
- Sicrhau bod PChCC yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a llywodraethu perthnasol.
- Hyrwyddo rheolaeth ddarbodus ac effeithiol ar adnoddau sefydliadol (Ariannol a dynol).
- Sicrhau bod strategaethau a pholisïau yn eu lle a fydd yn cefnogi amcanion PChCC.
- Datblygu a monitro risg, mesurau rheoli mewnol a systemau sy'n dryloyw ac yn atebol i randdeiliaid.

PARTNERIAETH  
CHWARAEON  
CANOLBARTH CYMRU

MID WALES  
SPORT  
PARTNERSHIP





# Proses Recriwtio

---



## Sut i Wneud Cais:

Diolch i chi am eich diddordeb mewn cyfrannu at lwyddiant Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru.

Anfonwch Ddatganiad o Ddiddordeb erbyn **Dydd Llun 24ain Mawrth 9yb 2025** sy'n cynnwys:

- 1) Eich **CV cyfredol** yn manylu ar eich profiad proffesiynol, eich cefndir ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n cefnogi eich cais.
- 2) **Llythyr eglurhaol** neu fideo yn amlinellu sut byddai eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad yn:
  - cyfrannu at Fwrdd Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru
  - cefnogi datblygiad y bwrdd, a hefyd yn helpu i wneud penderfyniadau a fydd yn sbarduno uchelgais a thwf y bartneriaeth

**I gael trafodaeth anffurfiol a / neu i wneud cais, cysylltwch â Gemma Cutter (Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru):**

Drwy e-bost: [gemma@mwsp.cymru](mailto:gemma@mwsp.cymru)

Neu ffoniwch: 07950 476 196

Os hoffech chi dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat hygrych amgen, cysylltwch â [gemma@mwsp.cymru](mailto:gemma@mwsp.cymru) a rhowch wybod i ni pa fformat sydd orau gennych chi.

---

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **Dydd Llun 24ain Mawrth 9yb 2025**